## Digwyddiadau Mawr 2020 Prosiect HOPE ar Eiriolaeth

## Crynodeb o'r Gweminarau

### Cyflwyniad

Ym Mehefin 2020, roedd sefydliadau ag arbenigedd ym maes gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi), wedi cynnal arolwg o eiriolwyr a chasglu tystiolaeth o effaith pandemig (coronafeirws) COVID-19. Lluniodd yr adroddiad – "Gwerthfawrogi Lleisiau yng Nghymru: Diogelu Hawliau yn ystod y Pandemig a Thu Hwnt"– sylfaen y Digwyddiadau Mawr, sef cyfres rithwir o 5 gweminar a drefnwyd gan HOPE (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu), a gynhaliwyd dros gyfnod o bythefnos rhwng 19 Hydref a 5 Tachwedd. Darparodd ystafelloedd grŵp drafodaethau ar elfennau allweddol yr adroddiad.

### Gweminar 1 – Egwyddorion Eiriolaeth, 19 Hydref

Fe wnaeth cyflwyniad gan Jonathan Senker, Prif Weithredwr, VoiceAbility, a Natasha Fox, Prif Swyddog, Eiriolaeth Gorllewin Cymru, archwilio dogfen "Egwyddorion Eiriolaeth", a luniwyd gan gydweithrediad rhwng gwasanaethau eiriolaeth ac NDTi. Roedd y ddogfen wedi'i darparu i gyfranogwyr wrth gofrestru ar gyfer y gweminar ac roedd yn sylfaen i drafodaethau ar ei phum prif egwyddor:

https://qualityadvocacy.org.uk/wp-content/uploads/2020/10/Operating-Principles-26.10.2020.pdf

Gofynnwyd i'r ystafelloedd grŵp ystyried: pam roedd yr egwyddorion yn bwysig iddyn nhw, beth oedd yn heriol a beth oedd yn gweithio'n dda.

### Crynodeb o Drafodaethau'r Grwpiau:

Trafodwyd yr anawsterau hanesyddol ynghylch eiriolaeth ac, ar y cyfan, er bod deddfwriaeth yn gosod dyletswydd statudol i gynnig cymorth, roedd trafodaethau'rgrwpiau'n ystyried bod hyn ond wedi lliniaru'r hawl i eiriolaeth yn rhannol os nad oedd gweithwyr proffesiynol yn galluogi hyn i ddigwydd. Cytunwyd bod eiriolaeth yn 'hawl bwysig y bu'n rhaid brwydro'n galed i'w chael' a oedd yn cael ei hatal trwy gymhwyso polisïau penderfynu cyffredinol dan y pandemig presennol. Os oedd pobl yn cael gwybod am eiriolaeth, nid oedd y dulliau cyfathrebu bob amser yn briodol i anghenion cyfathrebu ac addysgol y bobl yr oedd angen eiriolaeth arnynt. Amlygwyd bod diffyg dealltwriaeth o dechnoleg ddigidol neu ddiffyg mynediad ati, diffyg adnoddau ariannol, neu ddiffyg cymorth i ddatblygu'r sgiliau priodol yn rhwystrau rhag cymorth rhithwir. Lle'r oedd cymorth yn cael ei ddarparu'n rhithwir neu dros y ffôn, cododd trafodaethau'r grwpiau bryderon am gyfrinachedd, diogelu a methu sylwi ar iaith ddieiriau'r corff.

Hefyd, amlygodd trafodaethau'r grwpiau amharodrwydd pobl i ofyn am gymorth, neu'r rhagdybiaeth fod pob gwasanaeth ar gau, oherwydd negeseuon aneglur gan Lywodraeth Cymru a chyrff statudol. Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol o egwyddorion

eiriolaeth yn y trafodaethau grŵp, gan gynnwys gwaith caled cartrefi gofal a gwasanaethau eiriolaeth i gynnig cymorth hyblyg, adweithiol, gydag asesiadau risg priodol a chadw pellter cymdeithasol.

**Gweminar 2 –Gostyngiad yn nifer y Cyfeiriadau ar gyfer Eiriolaeth ac effaith Gwneud Penderfyniadau Cyffredinol, 20 Hydref**

Cyflwyniad gan Natasha Fox, Prif Swyddog, Eiriolaeth Gorllewin Cymru a Nicola Benney, Rheolwr Eiriolaeth, Dewis CIL, yn archwilio’r rhagdybiaeth y byddai atgyfeiriadau ar gyfer eiriolaeth yn cynyddu yn ystod cyfnod clo’r pandemig a rhesymau posibl pam na ddigwyddodd hyn, gan gynnwys llunio polisïau cyffredinol.

Ar y diwrnod, gofynnwyd i’r grwpiau ystyried: effaith y pandemig ar bobl yr oedd angen eiriolaeth arnynt, yr effaith ar wasanaethau eiriolaeth ac effaith llunio polisïau cyffredinol ar y naill a’r llall ohonynt.

**Crynodeb o Drafodaethau’r Grwpiau**

Cafwyd consensws ar draws holl drafodaethau’r grwpiau bod cwymp sylweddol wedi bod mewn atgyfeiriadau ar gyfer eiriolaeth ledled pob eiriolaeth statudol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn gysylltiedig â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gydag 89% o eiriolwyr yn dweud bod llai o atgyfeiriadau wedi’u gwneud. O bryder oedd pobl dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a’r Ddeddf Iechyd Meddwl, y dylent fod wedi’u hatgyfeirio ar gyfer eiriolaeth, ond nad oedd hyn yn digwydd. Roedd Deddf y Coronafeirws a’i phwerau brys yn cael eu defnyddio’n anghywir i atal elfen eiriolaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Roedd yr effaith ar draws pob lleoliad yn ddibynnol ar allu teulu, staff neu weithwyr proffesiynol i gynnig cymorth trwy blatfformau digidol, os oedd ganddynt yr amser, y gallu a’r ddealltwriaeth o’r dechnoleg, gydag ychydig neu ddim opsiynau eraill yn cael eu cynnig. Roedd pryderon ar draws pob grŵp am ddiffyg cyfrinachedd a phorthora mynediad at eiriolaeth statudol, gyda diffyg hyblygrwydd a pheidio â darparu ar gyfer anghenion cyfathrebu gwahanol, e.e. pobl ag anawsterau dysgu, pobl â namau ar y clyw neu bobl fyddar, a phobl â nam ar y golwg, ynghyd ag effaith meddygaeth rymus ar allu person i ymgysylltu.

O ran gwasanaethau eiriolaeth eu hunain, teimlai grwpiau bod pobl wedi cymryd yn ganiataol eu bod oll ar gau, bod polisïau cyffredinol o beidio ag ymweld ar draws pob sector, a phryderon bod penderfyniadau DNACPR cyffredinol yn cael eu gwneud. Roedd pob grŵp yn pryderu pe na bai penderfyniadau cyffredinol yn cael eu herio, byddai’n effeithio ar y ffordd y byddai atgyfeiriadau’n cael eu gwneud ar ôl datrys sefyllfa COVID-19. Roedd angen i’r lleoliadau iechyd a gofal cymunedol fod yn fwy hyblyg, gyda gweithdrefnau asesu risg priodol, PPE a bod gwybodaeth am eiriolaeth yn cael ei chynnig i bob unigolyn, i’w galluogi i fanteisio ar gymorth eiriolaeth a hawl i fywyd teuluol. Mae angen i gyfarfodydd arferol, fel “Budd Pennaf”, barhau a chytunodd pob grŵp fod angen iddynt barhau i wthio i hyn ddigwydd.

**Gweminar 3 – Effaith Iechyd Meddwl ar staff a chleientiaid yn ystod y cyfnod clo, 22 Hydref**

Cyflwyniad gyda Meinir Evans, Rheolwr Busnes ar gyfer Trawsnewid Iechyd Meddwl i'r Bwrdd Iechyd, a Kerry Grommert, Cydlynydd Gwirfoddolwyr a Hyfforddiant ICAN.

Gofynnwyd i'r grwpiau drafod: effaith pandemig COVID-19 ar bobl yr oedd angen eiriolaeth arnynt a'r staff yn ystod y cyfnod clo, pa strategaethau a oedd yn gweithio'n dda a'r hyn yr oedd angen i ni ei ystyried wrth symud ymlaen.

**Crynodeb o Drafodaethau'r Grwpiau**

Cafwyd consensws am lefelau'r straen a'r gorbryder i gleientiaid a staff, teimladau o ynysu ac unigrwydd, pryderon am ansicrwydd swydd, a bod cyllid ac ati'n cael effaith ar les. Roedd gweithio gartref yn caniatáu i staff barhau i gynnig cymorth, ond roedd cydbwysedd anodd rhwng bywyd gwaith a bywyd gartref, diffyg lle gweithio penodol neu fethu dianc rhag sefyllfaoedd llawn straen. Gadawyd i bobl yr oedd angen eiriolaeth arnynt deimlo nad oedd unrhyw un ar gael i'w helpu nhw ac roedd gofalwyr yn ceisio ymdopi ar eu pen eu hunain. Roedd pobl hŷn yn mynd i'w cragen ac yn colli hyder ac roedd lleoliadau busnes a chymunedol lleol yn cau, gyda rhai ohonynt yn anhyfyw yn ariannol, gan olygu y bydd cymunedau'n newid.

Ar nodyn cadarnhaol, roedd yr holl grwpiau o'r farn bod trafodaethau am iechyd meddwl yn lleihau'r stigma sydd ynghlwm ag iechyd meddwl, roedd gofalwyr yn dweud eu bod yn ofalwyr ac yn gofyn am gymorth pan fyddent efallai'n amharod i wneud hynny yn gynt, ac roedd gwirfoddolwyr cymunedol yn cynnig cymorth ymarferol gyda siopa, ac ati. Roedd staff a chydweithwyr o'r farn ei bod hi'n bwysig siarad â ffrindiau y tu allan i waith, cael sgyrsiau gyda chydweithwyr yn anffurfiol am faterion nad oeddent yn ymwneud â gwaith a bod cyflogwyr yn cynnig cymorth i staff trwy fentrau a fyddai'n cynnwys amser wedi'i neilltuo ar gyfer lles. Eto, roedd cyfathrebu'n fater a godwyd gan bob grŵp, gyda galwadau zoom yn cael eu defnyddio'n helaeth, gan ychwanegu straen, roedd llai o alwadau ffôn, ac roedd ar gleientiaid y mae angen iddynt ddarllen gwefusau neu'r rhai heb lawer o fynediad at TG neu'r wybodaeth i ddefnyddio'r rhain angen amser a lle i gael eu cefnogi'n effeithiol. Roedd cydgysylltiad rhwng pwysigrwydd lles corfforol a lles meddyliol.

**Gweminar 4 – Effaith y Cyfnod Clo ar Ofalwyr a rhoi'r gorau i wasanaethau, 2 Tachwedd**

Canolbwyntiodd cyflwyniad gan Dawn Owen, Swyddog Gwirfoddolwyr ac Ymgysylltu, Gyrfa Cymru, ar y ffordd nad yw pobl yn ystyried eu hunain yn ofalwyr, sut mae cyfrifoldeb y rôl ofalu wedi'i amlygu yn ystod y cyfnod clo a pham mae hyn yn cael effaith ar bobl sy'n cofrestru'n ofalwyr ac yn ceisio cymorth. Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a'i gofyniad am gynnig cefnogaeth i Ofalwyr.

Gofynnwyd i'r grwpiau ystyried enghreifftiau o feysydd lle'r oedd gofalwyr yn ei chael hi'n anodd, pam mae mwy o ofalwyr wedi cofrestru yn ystod ac ar ôl y cyfnod clo, a sut gall eiriolwyr sicrhau bod gofynion statudol y Ddeddf yn cael eu darparu.

**Crynodeb o Drafodaethau'r Grwpiau**

Fe wnaeth trafodaethau ar y rhesymau posibl pam mae mwy o ofalwyr bellach yn cofrestru ac yn ceisio cymorth gynnwys adlewyrchiadau mwy cadarnhaol o ofalwyr yn y cyfryngau, ar raglenni teledu ac yn wasg, wythnos gofalwyr, amlygu pwysau bod yn ofalwr a rôl gofalwyr â thâl/di-dâl yn ystod y clapio dros ofalwyr. Mae effaith diffyg gofal seibiant neu gymorth cymunedol ffurfiol, e.e. cau clybiau cinio, wedi cael effaith, gan amlygu'r 'gofal cyson' sy'n cael ei roi yn ystod y cyfnod clo; mae pobl bellach yn ei chael hi'n anodd ac yn gofyn am help mewn argyfwng. Nid oes dealltwriaeth glir o'r Ddeddf a chodwyd pwyntiau am yr angen am sgyrsiau gan feddygon teulu neu fferyllwyr sy'n gwybod bod rhywun yn ofalwr, am fuddion cofrestru a'r cymorth y gall hynny ei gynnig.

Gallai ennill achrediad sefydliad sy'n ystyriol o ofalwyr helpu cyflogwyr/ysgolion i gynnig cymorth gwell. Mae camsyniadau ynghylch ystyried pobl yn ofalwyr dim ond os byddant yn derbyn lwfans gofalwr, anawsterau ariannol i ofalwyr hŷn pan fydd pensiwn yn dechrau oherwydd bod y lwfans gofalwr yn dod i ben pan fydd hyn yn dechrau, a rhoi'u hiechyd a'u lles meddyliol eu hunain fel gofalwyr gyntaf. Amlygodd y trafodaethau'r angen am negeseuon cliriach gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod clo, sef y gallai gofalwyr deithio i gynnig cymorth, gan alluogi pobl a oedd yn byw ymhellach i ffwrdd i barhau i ymweld â pherthynas neu ffrindiau oedrannus. Mae pobl oedrannus wedi'u gadael yn unig ac ar eu pen eu hunain. Mae'r negeseuon yn debyg i'r sgyrsiau blaenorol ynghylch TG, Zoom a chyfarfodydd rhithwir, gyda phobl angen amser a chymorth priodol i ddatblygu sgiliau.

**Gweminar 5–Anwybyddu Hawliau Dynol Pobl yn ystod y Cyfnod Clo, 5 Tachwedd**

Cyflwyniad gan Dr Andrew Hider, Ludlow Street Healthcare. Crynhodd Dr Hider bwysigrwydd cael pen ffordd drwy hawliau mewn ymarfer iechyd meddwl arferol, gan gyfeirio at ganllawiau craidd y **Cod Ymarfer, Cod Ymarfer MCA, Deddf Hawliau Dynol 1998**, a rhoddodd drosolwg o'r hyn ddylai ddigwydd yn ystod gofal cleifion mewn ysbyty a'r cynllunio a wnaed ynghylch darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod clo. Myfyrio ar ddeddfwriaeth hawliau dynol a deddfwriaeth frys COVID-19, sut mae hon wedi'i dehongli, yn enwedig o ran cartrefi gofal.

Gofynnwyd i'r grwpiau ystyried pa heriau a wynebont wrth geisio sicrhau bod hawliau dynol pobl yn cael eu bodloni, a pha gymorth yr oedd eiriolwyr o'r farn bod ei angen arnynt i herio clinigwyr/sefydliadau yn briodol os ydynt yn pryderu nad yw hawliau dynol yn cael eu cynnal?

**Crynodeb o Drafodaethau'r Grwpiau**

Roedd rhai o'r materion a gafodd eu trafod yn cynnwys: diffyg mewnbwn gan unigolion, aelodau teulu neu eiriolwyr wrth ryddhau pobl o'r ysbyty, anfon pobl am asesiadau ymhell i ffwrdd o'u cartref, dim hawl i fywyd teuluol, canslo absenoldeb Adran 17, bod yn gaeth am gyfnodau hir mewn cartrefi gofaloherwydd ynysu, dim cofleidio na chysylltiad corfforol, dim ymweliadau.Oedi hir mewn asesiadau gwaith cymdeithasol, yn enwedig y tu allan i'r sir, peidio â chymhwyso trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a pheidio â chynnwys eiriolaeth mewn cyfarfodydd budd pennaf. Polisïau cyffredinol ynghylch DNACPR ar waith mewn llawer o leoliadau, ac

amlygu bod pobl hŷn a phobl ag anawsterau dysgu yn arbennig yn colli hawliau dynol. Darparwyr dan straen, prinder staff, costau ychwanegol, anghenion cymhleth. Risg gynyddol o hunanniweidio neu hunanladdiad oherwydd bod iechyd meddwl yn gwaethygu, effaith 'sosban bwysedd' pan fydd problem yn cynyddu dros gyfnod tymor hwy. Gadael teuluoedd i ofalu am bobl nad ydynt yn gwybod sut i ymdrin â nhw, a chymryd yn ganiataol bod teuluoedd yn gallu ymdopi ac y byddant yn ymdopi.

Teimlai eiriolwyr y byddai enghreifftiau o heriau cyfreithiol llwyddiannus a'r dyfarniadau i herio polisïau cyffredinol sy'n atal ymweliadau yn helpu'n fawr, gan rannu dyfarniadau cyfreithiol ac, eto, mae angen negeseuon cliriach gan Lywodraeth Cymru. Adnoddau mewn fformatau hawdd eu darllen ac arian i gartrefi gofal recriwtio mwy o staff i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau mewn gofal. Bydd llai o feddwl cyflym am atebion mewn argyfwng, cynnydd mewn meddwl yn arafach, dod o hyd i atebion sy'n sicrhau mynediad at wasanaethau, cymorth a darpariaeth yn helpu eiriolwyr i ateb y pryderon sydd ganddynt am hawliau dynol. Ni ddylai eiriolwyr ofni herio polisïau cyffredinol cartrefi gofal i beidio â chaniatáu ymweliadau a gall teuluoedd gymryd camau cyfreithiol. Mae'r Llys Gwarchod wrth ei waith; gwnewch atgyfeiriadau ato, nid yw'r pandemig hwn yn rhwystr rhag brwydro dros gleientiaid.

Cytunodd pob grŵp y byddent yn croesawu mwy o fforymau fel hyn i rannu profiadau; mae'n werthfawr iawn i ymarferwyr y gallent hwythau fod yn gweithio ar eu pen eu hunain.

**Gwerthuso'r Weminar fel Cynhadledd Flynyddol**

Ar y cyfan, cafodd y digwyddiad hwn groeso mawr, gyda 90% o bobl yn ei ddisgrifio'n dda/yn dda iawn. Roedd 85% o'r mynychwyr wedi hoffi platfform Zoom yn hytrach, gyda rhai problemau technegol a chyflymder band eang yn effeithio ar gysylltiad rhai cyfranogwyr. Daeth yr adborth cadarnhaol mwyaf, er gwaethaf problemau technegol, gan fynychwyr ynghylch y weminar ar hawliau dynol. Roedd y rhan fwyaf o'r mynychwyr a roddodd adborth (92%) o'r farn bod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pynciau yn dilyn y gweminarau wedi gwella, gan ddweud ei fod yn dda/yn dda iawn.

Rhai sylwadau cadarnhaol:

Mae mynychu gweminarau'r 'Digwyddiad mawr' wedi 'ngwneud i'n fwy ymwybodol o'r materion y mae pobl yn eu hwynebu, yr effaith mae'r pandemig yn ei chael ar les meddyliol pawb a sut galla' i weithredu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau fy mod i'n cyflawni fy rôl eirioli mewn cyfnod digynsail

Mae angen mwy o blatfformau eiriolaeth i gynorthwyo eiriolwyr i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi'u gwaith. Mae rhai eiriolwyr yn gweithio'n rhan amser ac mae ganddynt faich gwaith trwm, ac nid oes ganddynt yr amser i ddysgu am adnoddau a fyddai'n eu cynorthwyo nhw â'u gwaith. Felly, mae cael digwyddiadau fel hyn yn eu cynorthwyo nhw i ddysgu sut mae pobl eraill yn gweithio a pha adnoddau maen nhw'n troi atynt i'w cynorthwyo i gynnal gwasanaeth eiriolaeth effeithiol